**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 26 Ionawr 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 10 Chwefror 2021 |

## PWNC

Eitem 6:YSGOL NEWYDD YNG NGHRICIETH

## PENDERFYNIAD

Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Treferthyr i 150 ac adleoli'r ysgol i safle amgen, cyfeirir ato fel safle A497 ar 1 Medi 2023 yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ym mis Ebrill 2019 bu i'r Cabinet gymeradwyo'r hawl i gychwyn trafodaethau lleol er mwyn adnabod opsiynau ar gyfer adeiladu ysgol gynradd newydd yng Nghricieth fel canlyniad i gyflwr gwael adeiladau presennol Ysgol Treferthyr.

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion statudol y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliwyd cyfnod ymgynghori statudol ar y cynnig gydag ymgynghorai perthnasol rhwng 6 Tachwedd 2020 a 18 Rhagfyr 2020.

Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd yn amlygu y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol. Mae angen penderfynu ar symud ymlaen i gyhoeddi cynnig yn dilyn cwblhau yr ymgynghoriad.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol a'r Aelod Lleol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 26 Ionawr 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 10 Chwefror 2021 |

## PWNC

Eitem 7:CYNLLUN GWYBODAETH

## PENDERFYNIAD

Mabwysiadwyd y Cynllun Gwybodaeth.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae gan y Cyngor gynlluniau ar gyfer ei asedau hanfool, ond mae gwybodaeth hefyd yn ased hanfodol yn y byd ohoni. Mynegwyd angen am gynllun i amlygu blaenoriaethau'r Cyngor yn y maes am y 5 mlynedd nesaf.

Roedd y cynllun yn gosod arweiniad strategol ar sut mae'r Cyngor yn mynd i drin a rheoli gwybodaeth dros y blynyddoedd i ddod.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 26 Ionawr 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 10 Chwefror 2021 |

## PWNC

Eitem 8:NEWID HINSAWDD

## PENDERFYNIAD

Penderfynwyd sefydlu Bwrdd Newid Hinsawdd i lywio'r gwaith o sefydlu a gweithredu ar Gynllun Gweithredu Newid Hinsawdd ac i ddarparu £58,990 o'r Gronfa Drawsffurfio er mwyn cyflogi Rheolwr Prosiect i gydgordio'r gwaith.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Bu Cabinet, yn dilyn penderfyniad y Cyngor i ddatgan argyfwng hinsawdd, ffurfio tasglu er mwyn ystyried y camau ymarferol y gellid eu cymryd er mwyn ymateb i'r argyfwng.

Y bwriad oedd y byddai'r taglu yn llunio Cynllun Gweithredu ac y byddai y gwaith wedi ei gyflawni erbyn hyn. Yn sil argyfwng Covid bu i'r gwaith hwn gael ei arafu ac mae angen bellach fod yn ail afael yn y maes gwaith i sicrhau fod cynllun gweithredu ar waith cyn gynted a bod modd.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o’r Cabinet:** | 26 Ionawr 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo’r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 10 Chwefror 2021 |

**PWNC**

Eitem 9:YMDDEOLIAD Y PRIF WEITHREDWR

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd fod angen recriwtio a phenodi i swydd y Prif Weithredwr ar sail barhaol.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Bu i’r Prif Weithredwr hysbysu’r Cyngor o’i fwriad i ymddeol ar y 31 Mawrth eleni. Er mwyn llewni’r swydd hon, mae angen y penderfyniad fel bod modd mynd rhagddo gyda’r trefniadau i recriwtio a phenodi unigolyn i ymgymryd a’r gwaith.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol. Ond bu i swyddogion adael y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 26 Ionawr 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 10 Chwefror 2021 |

---

**PWNC**

Eitem 10:CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2020

---

**PENDERFYNIAD**

- Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd 2020 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.
- Nodwyd effaith ariannol Covid19, sydd yn gyfuniad o gostau ychwanegol, colledion incwm a llithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth dilyffethair i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd mewn ymateb i'r argyfwng.
- Nodwyd fod gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Theuluoedd eleni. Mae'r gwaith o gael gwell dealltwriaeth o'r materion yn parhau.
- Cymeradwywyd yr argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u egluro yn Atodiad 2).
  - Ar gyllidebau Corfforaethol, fod:
    - Tanwariant o (£478k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei drosglwyddo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf.
    - Tanwariant net o (£1,312k) ar gyllidebau Corfforaethol yn mynd i falansau cyffredinol y Cyngor i gynorthwyo i wynebu'r her ariannol sydd yn wynebu'r Cyngor ar ddiwedd 2020/21 yn arbennig felly yn sgil argyfwng Covid19.
- Fod derbyniadau grant ar gyfer digolledu gwariant ychwanegol a cholledion incwm cysylltiedig â'r argyfwng Covid19 gan y Llywodraeth yn cael ei ddyrannu i'r adrannau perthnasol yn unol â'r hyn a nodir yn Atodiad 1

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol) ac er mwyn caniatáu i'r cyfrifon terfynol ffurfiol gael eu cwblhau.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 26 Ionawr 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 10 Chwefror 2021 |

---

**PWNC**

Eitem 11:RHAGLEN CYFALAF 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD (SEFYLLFA 30 TACHWEDD 2020)

---

**PENDERFYNIAD**

- Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2020) o'r rhaglen gyfalaf.
- Cymeradwywyd yr ariannu addasedig a gyflwynwyd yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:
    - cynnydd o £2,000 mewn defnydd o fenthyca,
    - cynnydd o £3,019,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau,
    - dim newid mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf,
    - cynnydd o £313,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw,
    - dim newid mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf, a
    - lleihad o £14,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol) ac er mwyn caniatáu i'r cyfrifon terfynol ffurfiol gael eu cwblhau.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 26 Ionawr 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 10 Chwefror 2021 |

## PWNC

Eitem 12:SEFYLLFA ARBEDION

## PENDERFYNIAD

i. Derbyniwyd casgliadau'r Prif Weithredwr ar y cynlluniau unigol fel y'i nodwyd yn Atodiadau 1 a 2.
ii. Yn unol â'r hyn a nodwyd yn Atodiad 1, cymeradwywyd symud y proffil cyflawni ar gyfer cynlluniau gwerth £1,012,750 i 2022/23, a chydnabod bod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni cynlluniau arbedion gwerth £848,040 gan eu dileu o'r gyllideb.
iii. Defnyddio'r ddarpariaeth o £1.6m a osodwyd o'r neilltu yng nghyllideb 2020/21 er mwyn gwneud hynny, a chyflawni'r bwlch gweddilliol drwy ddefnydd cyntaf o arbedion a gynlluniwyd ar gyfer 2021/22.
iv. Wrth baratoi cyllideb 2021/22, cymeradwywyd symud proffil cyflawni cynlluniau gwerth £511,250 i 2022/23 a chydnabod bod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni cynlluniau arbedion gwerth £595,450 ac y dylid defnyddio arbedion o £705,930 ar gyfer y gyllideb fel y nodwyd yn Atodiad 2.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn y Cabinet yn mis Hydref, bu i'r Cabinet ystryied adroddiad oedd yn nodi sefyllfa gyfansawdd gyda chyflawni abedion a oedd yn cynnwys arbednion ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21. Amlygwyd risgiau ynghlwm a chynlluniau gweth £3.4m, ac yn wyneb y flaenoriaeth i ymdrin â'r argyfwng Cofid, roedd yna berygl o fethu a chau'r bwlch mewn cyfnod byr.

Nodwyd fod y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid wedi cwrdd a'r aelodau Cabinet a'r penaethiaid i drafod sut i ail afael yn y drefn o gyflawni'r arbedion arfaethedig. Roedd yr adroddiad yn nodi'r canfyddiadau a'r argymhellion oedd yn deillio o'r cyfarfodydd hyn.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.